CYDBWYLLGOR EIN RHANBARTH AR WAITH (ERW)

ARCHWILIO CYFRIFON

2020-21

TRWY HYN RHODDIR RHYBUDD yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2014, (fel y'u diwygiwyd)

1. O ddydd Mawrth 6ed Gorffennaf 2021 i ddydd Llun 2il Awst 2021 yn gynwysedig, y caiff unrhyw un â diddordeb, yn amodol ar Adran 30 y Ddeddf:

   (a) Archwilio a gwneud copïau ac ymholiadau ynghylch cyfrifon y corff a enwir uchod am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2021, a holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau perthynol trwy fewngofnodi i www.sir-benfro.gov.uk/cyllid-a-busnes/archwilio-cyfrifon.

   (b) Fel arall, gwneud trefniant i ymweld â Neuadd y Sir, Freeman's Way, Hwlffordd, SA61 1TP rhwng 10.00yb a 12.00yp. Mae modd gwneud trefniant naill ai trwy anfon e-bost at inspectionofaccounts@pembrokeshire.gov.uk neu drwy ffonio 01437 776618.

   Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 presennol ynghylch ymbellhau cymdeithasol, rydym yn eich annog i wneud ymholiadau drwy ein gwefan fel y nodir (a) uchod. Lle bo angen ymweld â Neuadd y Sir, caniateir mynediad trwy apwyntiad yn unig ac mae'n rhaid cadw at ganllawiau mynediad llym.

2. Ar neu ar ôl dydd Mawrth 3ydd Awst 2021am am 9.00yb, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ei gynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais unrhyw etholwyr llywodraeth leol o'r ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, yn rhoi cyfle i'r etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi am y cyfrifon drwy apwyntiad fideo ar-lein neu yn Swyddfa Archwilio Cymru, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP. Mae modd gwneud trefniant naill ai trwy anfon e-bost at *jeremy.saunders@audit.wales* neu drwy ffonio 02920 829329.

   Oherwydd cyfyngiadau pellter cymdeithasol cyfredol Covid-19 rydym yn eich annog i drefnu apwyntiad ar-lein yn hytrach nag ymweld yn bersonol. Lle bo angen ymweld â Neuadd y Sir, caniateir mynediad trwy apwyntiad yn unig ac mae'n rhaid cadw at ganllawiau mynediad llym.

3. Fe all unrhyw etholwyr llywodraeth leol o ran unrhyw ardal y mae'r cyfrifon hynny'n berthnasol iddi, neu unrhyw gynrychiolwyr ar eu rhan, fynychu ger bron yr archwilydd a gwneud gwrthwynebiadau ynghylch

   a) unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud cais am ddatganiad ar ei gyfer dan Adran 32 y Ddeddf;

   b) unrhyw fater arall y gallai'r archwilydd wneud adroddiad arno dan Adran 22 y Ddeddf.

4. Nid oes modd gwneud unrhyw wrthwynebiad dan (3) uchod gan neu ar ran etholwr llywodraeth leol oni bai fod yr archwilydd eisoes wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig ac ar ba sail y caiff ei wneud, a bod copi o'r rhybudd wedi'i anfon at y corff y mae ei gyfrifon yn destun archwiliad.

J. HASWELL
CYFARWYDDWR ADNODDAU